# Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

**2017 dccc 3**

## RHAN 5

DARPARIAETH ATODOL

## PENNOD 4

COSBAU O DAN Y DDEDDF HON

*Cosbau sy'n ymwneud â chyfrifo pwysau trethadwy deunydd*

### 61 Cosb am fethu â phennu pwysau yn briodol

Mae gweithredwr safle tirlenwi awdurdodedig sy'n methu â phennu pwysau'r deunydd mewn gwarediad trethadwy yn unol ag adran 20 yn agored i gosb nad yw'n fwy na £500 mewn cysylltiad â phob gwarediad trethadwy y mae'r methiant yn ymwneud ag ef.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 61 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 97(2)**

**I2** A. 61 mewn grym ar 1.4.2018 gan O.S. 2018/35, **ergl. 3**

### 62 Cosb am gymhwyso'r disgownt dŵr yn anghywir

Pan fo gweithredwr safle tirlenwi awdurdodedig, wrth gyfrifo pwysau trethadwy'r deunydd mewn gwarediad trethadwy—

(a) yn cymhwyso disgownt heb fod â chymeradwyaeth o dan adran 21 i wneud hynny, neu

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/04/2018.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Croes Bennawd: Cosbau sy'n ymwneud â chyfrifo pwysau trethadwy deunydd. (See end of Document for details)*

(b) yn cymhwyso disgownt sy'n fwy na'r disgownt a gymeradwywyd o dan adran 21,

mae'r gweithredwr yn agored i gosb nad yw'n fwy na £500 mewn cysylltiad â phob gwarediad trethadwy y cymhwysir disgownt iddo yn y naill neu'r llall o'r ffyrdd hynny.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** A. 62 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 97(2)**

**I4** A. 62 mewn grym ar 1.4.2018 gan O.S. 2018/35, **ergl. 3**

## 63 Asesu cosbau o dan adrannau 61 a 62

(1) Pan ddaw gweithredwr safle tirlenwi awdurdodedig yn agored i gosb o dan adran 61 neu 62, rhaid i ACC—

(a) asesu'r gosb, a

(b) dyroddi hysbysiad i'r person am y gosb a aseswyd.

(2) Caniateir cyfuno asesiad o gosb o dan adran 61 neu 62 gydag asesiad treth.

(3) Rhaid gwneud asesiad o gosb o dan adran 61 neu 62 o fewn y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau â'r diwrnod y daeth ACC i gredu yn gyntaf bod y gweithredwr yn agored i'r gosb.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I5** A. 63 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 97(2)**

**I6** A. 63 mewn grym ar 1.4.2018 gan O.S. 2018/35, **ergl. 3**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/04/2018.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Croes Bennawd: Cosbau sy'n ymwneud â chyfrifo pwysau trethadwy deunydd.